## PWYLLGOR CRAFFU BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 12 Hydref, 2021.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S. Griffiths (Cadeirydd); Cynghorydd N.C. Thomas (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J. Aviet, J.E. Charles, O. Griffiths, R. Nugent-Finn a J.W. Thomas.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr B.T. Gray (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd) a K.F. McCaffer (Aelod Cabinet dros Hamdden, y Celfyddydau a Diwylliant).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd T.H. Jarvie.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Medi, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

EITEM AGENDA 4. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNRYCHIOLIADAU A CHWYNION GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2020/21 (CGC) –

ARGYMHELLWYD –

(1) BOD cynnwys Adroddiad Blynyddol Ar Sylwadau a Chwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2020/21 yn cael ei nodi.

(2) BOD adroddiad diweddaru blynyddol mewn perthynas â chwynion a chanmoliaeth a dderbynnir gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei dderbyn gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2022.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Sicrhau craffu effeithiol ar berfformiad yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a darparu tystiolaeth am yr effaith ar fywydau defnyddwyr gwasanaeth unigol a'u teuluoedd/gofalwyr.

(2) Sicrhau bod goruchwyliaeth o'r maes pwysig hwn yn cael ei chynnal.

EITEM AGENDA 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL YMGYSYLLTU Â DINASYDDION (CGC) –

ARGYMHELLIR – DYLID nodi'r agweddau canlynol ar yr adroddiad:

- cyd-destun a strwythur Adroddiad Blynyddol Ymgysylltu â Dinasyddion y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2020-21 a'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ar gyfer ymgynghori yn 2021-22,
- y dulliau a ddefnyddir gan y Cyngor wrth gael barn ei ddinasyddion a'u teuluoedd,
- y blaenoriaethau gwella ar gyfer y meysydd gwasanaeth fel y nodwyd gan yr argymhellion yn yr Adroddiad Blynyddol, a
- yr effaith y mae COVID 19 wedi'i chael ar y gwasanaeth drwy brofiadau dinasyddion a gofalwyr, a'r gwydnwch y mae'r gwasanaeth wedi'i ddangos.

Rheswm dros yr argymhelliad

O ystyried cynnwys yr adroddiad sy'n ymwneud â chanlyniadau ac argymhellion y rhaglen ymgynghori flynyddol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2020-21.

EITEM AGENDA 6. MONITRO REFENIW A CHYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 31 AWST 2021 (CGC) –

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi'r sefyllfa o ran cyllidebau refeniw a chyfalaf 2021/22.

Rheswm dros yr argymhelliad

O ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod ynglŷn a'r alldro a amcanestynnir ar gyfer 2021/22.

EITEM AGENDA 7. OLRHAIN ARGYMHELLIAD CRAFFU 2IL CHWARTER 2021/22 AC AMSERLEN RHAGLEN WAITH YMLAEN Y PWYLLGOR WEDI'I DIWEDDARU 2021/22 (RG) –

(1) CYTUNO ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiad A yr adroddiad.

(2) CYMERADWYO Blaenraglen Waith Flynyddol ddiweddaraf y pwyllgor sydd wedi ei hatodi yn Atodiad B'r adroddiad a'i huwchlwytho i wefan y Cyngor.

(3) BOD trafodaeth gweithdy yn cael ei threfnu yn union cyn y Cyfarfod Pwyllgor ar 9 Tachwedd rhwng Aelodau'r Pwyllgor a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau

Cymdeithasol.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Parhau i dracio argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2) I'w hystyried ac er gwybodaeth.

(3) Rhoi cyfle i bob parti drafod newidiadau awgrymedig i Flaenraglen Waith y Pwyllgor yn dilyn cyfnod o fyfyrio ar y cynnwys presennol.